AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 233 Rhagfyr – Ionawr 2022

Synod Cymru

# Gwyliedydd



# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



"Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn rhydd, O Arglwydd,
mewn tangnefedd yn unol â'th air;
oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth,
a ddarperaist yng ngŵydd yr holl bobloedd;
goleuni i fod yn ddatguddiad i'r Cenhedloedd
ac yn ogoniant i'th bobl Israel." (Luc 2: 29-32)

Am eiriau hyfryd! Geiriau Simeon, wrth gwrs, mewn rhan bwysig o hanes y Nadolig yn efengyl Luc pennod 2: 22-35. Yn dilyn genedigaeth Iesu, a'r angylion a'r bugeiliaid wedi gadael, mae Mair a Joseff yn mynd â'r baban i'r deml yn Jerwsalem, i'w gyflwyno i'r Arglwydd. Yno, maen nhw'n cyfarfod â dau o bobl rydyn ni'n tueddu i'w hanghofio, sef Simeon ac Anna. Hen bobl ydynt, ac maen nhw'n sicr yn profi nad i blant yn unig y mae'r Nadolig ond i bawb o bob oed! Gweddi oedd geiriau Simeon, yn wir, ac fel y *Nunc Dimittis*, maen nhw'n rhan o litwrgi ac addoliad yr eglwys trwy'r byd. Gadewch i ni geisio dychmygu beth fuasai Simeon yn ei ddweud, o bosib, tasen ni'n ei holi...

"Hen ddyn ydw i. Dwi wedi gweld pobl yn dod ac yn mynd, yn arbennig yma yn Jerwsalem. Yn ddiweddar, gwelais y Rhufeiniaid yn dod, wrth gwrs, a byddan nhw'n mynd, ryw ddydd. Ond dwi ddim eisiau siarad amdanyn nhw – gadewch lonydd iddyn nhw am y tro. A siarad yn bersonol, dwi'n barod i fynd rŵan, i gael fy ngollwng o'r hen fywyd yma. Mae trefn newydd wedi cychwyn efo dyfodiad yr Un dwi wedi bod yn ei ddisgwyl ers blynyddoedd, a dwi ddim eisiau ei rwystro. Mae'n rhaid clirio'r ffordd; mae'n rhaid i'r hen fynd er mwyn gwneud lle i'r newydd, diolch fo i Dduw!

"Alla i ddim dweud ers faint dwi wedi bod yn gwylio a gweddïo a disgwyl am Feseia'r Arglwydd. Mae rhai yn dweud fy mod i'n gyfiawn a duwiol am wneud. Dwn i ddim am hynny – dwi jyst yn gwybod fy mod i'n dyheu am weld rhyddhad a gwaredigaeth holl bobl Dduw, ac nid yn unig plant Israel. Dwi'n sôn am bawb, heb eithriad, a hyd yn oed y Rhufeiniaid. *Pawb*. Dwi ddim yn gwybod, chwaith, sut ges i'r argyhoeddiad na fyddwn i'n marw cyn gweld y Meseia a dyfodiad gwaredigaeth yr holl fyd. Ond roeddwn i'n gwybod. Gwaith Ysbryd Duw, efallai, yn ddwfn yn fy nghalon. Dwn i ddim, ond yn sicr, dyna pam es i'r deml yn aml, oherwydd dyna beth mae'r proffwyd Malachi yn ei ddweud: 'yn sydyn fe ddaw'r Arglwydd yr ydych yn ei geisio i mewn i'w deml' (3:1). Y lle amlwg i'w weld, felly! A dyna lle wnes i gyfarfod efo fo, a'i dad, a'i fam fendigaid – druan ohoni hi! Dim ond baban oedd o, yn cael ei gyflwyno i'r Arglwydd, ond mi wyddwn yn syth pwy oedd o, ac roeddwn i'n gwybod bod pwrpas fy mywyd wedi'i gyflawni. Roeddwn i'n rhydd i fynd, yn cael fy ngollwng, yr hen yn symud ymlaen er mwyn creu lle ar gyfer y newydd, yr ifanc, y ffres a'r byw. Wedi cwblhau fy ngwaith ac wedi derbyn dyhead dyfnaf fy nghalon.

"Mae'n bosib aros o gwmpas yn rhy hir. Does dim byd sy'n para am byth – dim ond Duw ei hunan, a'i Feseia. Mae pob peth arall yn mynd heibio, ac os na wneith o, fydd dim lle i waith newydd Duw ddigwydd! Mae Duw yn gweithio yn ôl ei ewyllys, ond mi allwn ni rwystro ei ewyllys hefyd, yn arbennig pan nad ydyn ni'n gwybod pryd i ollwng gafael ar un peth er mwyn derbyn rhywbeth newydd. Mi wyddwn i nad oedd gwaith y Meseia am fod yn hawdd i gyd, dim o gwbl, ac yn arbennig i'w fam annwyl. Gwelais dristwch mawr iddi yn y dyfodol. Ac eto, doedd hynny ddim yn rheswm i beidio ufuddhau i ewyllys Duw. Hen ddyn ydw i, ac mae fy amser wedi dod, ond dwi'n teimlo'n gyffrous am beth sy'n dod. Fydda i ddim yn ei weld, ond bydd eraill yn gweld. Bywyd newydd, cariad newydd, gwaredigaeth newydd, i fwy o bobl nag y buasai'r hen drefn wedi dychmygu. Efallai fod yr awr dywylla jyst cyn y wawr, ond mae'r wawr yn dod, yn sicr. Mae goleuni'r Meseia yn llewyrchu yn y tywyllwch. Dwi'n mynd, a dwi'n llawenhau yn y rhai fydd yn dod yn fy lle. Tangnefedd a llawenydd i bob un ohonynt!"

Ie wir! Diolch i Dduw am Simeon, ac am bawb sy'n barod i wneud lle ar gyfer y Meseia newydd a'i ffyrdd yn eu bywydau, y Nadolig yma a phob amser."



Atseinier brwd Hosanna – Un a gaed
Yn y gwair a'n nodda,
I'n byd briw, Haleliwia,
Fe ddug Duw lôr feddyg da
**Ronald Griffith**




Synod Cymru

# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU**
**YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 233**
**RHAGFYR 2021 – IONAWR 2022**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
5 IONAWR 2022

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa




## Gwerthfawrogiad

Diolch yn fawr unwaith eto am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd.

| | |
|---|---|
| Capel Salem, Helygain | £ 30-00 |
| Capel Maelog, Pencarnisiog | £ 25-00 |
| Capel y Tabernacl, Llanfyllin | £200-00 |
| Arwel Williams, Caernarfon | £ 20-00 |
| Ardal Gwynedd a Môn | £500-00 |
| Gwenda, Iona, Dyfed, Siôn a'r teulu er cof annwyl am Glyn Davies | £ 20-00 |
| CYFANSWM | £820-00 |



Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd
Bydd Jennie'n ymweld â'r mannau isod yn y ddau fis nesaf, yn unol wrth gwrs â rheoliadau Covid ar yr adeg dan sylw. Boed bendith Duw ar ei gwaith ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.

**Rhagfyr 2021**
5 Dyffryn Clwyd a Bathafarn
12 Ceredigion a Meirionnydd
19 Dyffryn Clwyd, Bathafarn, Llanwddyn
26 Powys

**Ionawr 2022**
2 Dyffryn Clwyd
9 Powys
16 Llanrhaeadr
23 Dyffryn Conwy
30 Ceredigion a Meirionnydd



## Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y Gwyliedydd:

**Elfed Hughes** – £60.00

Anfonwyd cyfanswm o £60.00 yn enw Synod Cymru.

Eto eleni oherwydd sawl rheswm nid ydym yn gallu casglu anrhegion Nadolig ond os hoffech roi i'r elusen y Nadolig hwn mae modd i chi fod yn Secret Santa. Cewch y manylion am sut i gyfrannu drwy fynd i www.actionforchildren.org.uk

Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth.
Marc a Margaret
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan
Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
☎ 01978 756717 ✉ cwrteden@gmail.com

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts

Yn ei llyfr *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar* a gyhoeddwyd yn 1994, mae Marged Haycock yn trafod 33 o'r cerddi crefyddol ac ysgrythurol cynharaf sydd ar gael yn y Gymraeg. Cerddi yw'r rhain gan feirdd dienw, sy'n perthyn i'r cyfnod o'r ddegfed i'r ddeuddegfed ganrif. Ceir cerddi am y Drindod, y Cread, yr Ysgrythur, Angau a Buchedd y Cristion, wedi'u cyfansoddi o bosib gan glerigwyr neu fynaich. Fe wyddom fod Cristnogaeth yn ffynnu yma erbyn y chweched ganrif ac mae'r Athro Haycock yn awgrymu bod y cyfeiriadau crefyddol yn y Gododdin a cherddi Taliesin yn brawf bod y beirdd yn trafod crefydd yn gynnar yma yng Nghymru. Mater i gyfnod llawer iawn diweddarach oedd y briodas rhwng emyn a thôn a ddaeth yn sgil y Diwygiad Protestannaidd.

Ysgrifennwyd a chyhoeddwyd yr emynau Cymraeg cyntaf yn 1703, gan Ymneilltuwr sef Thomas Baddy, gweinidog Annibynnol Dinbych. Cyfieithiad o waith Thomas Doolittle oedd *Pasc y Cristion* sef casgliad o 6 emyn sacramentaidd. Yn 1725 cyhoeddodd drosiad mydryddol o *Ganiad Solomon* ynghyd ag 11 o emynau eraill. Ailargraffwyd y gwaith yn 1740 gan ychwanegu emynau gan Daniel Rowland a Griffith Jones.

Henry John [Harri Siôn, 1664-1754] oedd y Bedyddiwr cyntaf i gyhoeddi emynau a hynny yn 1747. Roedd *Amryw Hymnau Dymuniadol a Phrofiadol* yn cynnwys ei waith ef ynghyd ag awduron eraill. Bu pum argraffiad o'r llyfr ond yn ôl un beirniad roedd mwy o dduwioldeb nag o farddoniaeth yn yr emynau.

Ganwyd John Hughes [1776-1843] yn Aberhonddu. Derbyniwyd ef yn bregethwr gan y Gynhadledd Wesleaidd yn 1776, ac yna yn 1800 yn weinidog cyflawn. Ef ac Owen Davies a benodwyd yn 1800 i weithio fel cenhadon yng Nghymru. Gwelodd yr angen am Lyfr Emynau i'r enwad ac yn 1802 fe gyhoeddwyd *Diferion y Cyssegr*.

Er bod casgliadau o emynau wedi'u cyhoeddi gan rai o blith y Methodistiaid Calfinaidd o 1743 ymlaen, y penllanw oedd ymddangosiad rhan gyntaf o *Aleluia* gan Bantycelyn yn 1744. Yn ystod ei oes cyhoeddodd 16 casgliad o emynau gan osod sylfaen gadarn i eraill fentro i'r maes. Afraid dweud na ddaeth neb eto i ragori ar 'y gŵr biau'r gân'!

Wedi dweud hyn oll, nid oedd gan yr enwad lyfr emynau swyddogol ar gyfer yr holl aelodau tan i'r Gymanfa Gyffredinol a sefydlwyd yn 1864 ffurfio pwyllgor i ddarparu un Llyfr Emynau. Erbyn diwedd 1867 roedd y gwaith dethol wedi'i gwblhau a'r llawysgrif yn nwylo Thomas Gee. Roedd y llyfr a ddaeth o'r wasg yn 1869 yn eiddo'r Gymanfa a'r elw o'i werthu ar gael i'w ddefnyddio gan y Cyfundeb. Llyfr Geiriau yn unig oedd hwn gyda rhif ychwanegol wrth bob emyn yn nodi'r dôn oedd i'w defnyddio o Lyfr Tonau Cynulleidfaol Ieuan Gwyllt. Dyna oedd y patrwm tan 1897 pan gafwyd y llyfr cyntaf i gynnwys emynau a thonau ynddo.

Diddorol nodi bod 100 o Salmau Cân Edmwnd Prys [1544-1623] yn y llyfr hwnnw ynghyd â 845 o emynau Cymraeg a 48 o rai Saesneg. Mae R T Jenkins yn cynnig *'mai olion o'r hen gyfathrach hir rhyngom ni Fethodistiaid ac eglwys Edmwnd Prys oedd y rheswm am y nifer sylweddol o Salmau Cân yn y llyfr'*. Fodd bynnag am hynny mae eleni yn 400 mlynedd ers cyhoeddi'r Salmau Cân a gweddus yw nodi'r achlysur a diolch am y gymwynas a wnaeth Archddiacon Meirionydd â ni yn cyhoeddi'r llyfr emynau cyntaf yn y Gymraeg.

Ychydig a wyddom am ei fywyd personol ond dylid nodi iddo ef a William Morgan fynd i Goleg Sant Ioan Caergrawnt yn 1565. Pan gyhoeddwyd y Beibl yn 1588, roedd yr Esgob yn diolch i Edmwnd am ei gymorth gyda'r gwaith. Nid oes sicrwydd beth oedd y cymorth hwnnw ond erbyn 1588 gellid disgrifio Edmwnd Prys fel bardd caeth a Chymreigiwr penigamp ac fel un o wŷr dysgedicaf ei oes. Mae'r cywyddau ymson rhyngddo ef a William Cynwal yn cael eu hystyried y gorau o'u bath.

*Salmau Cân* Edmwnd Prys oedd prif lyfr emynau Cymru am fwy na 250 mlynedd er mai ond 12 tôn a geid yn y gyfrol. Un o brif nodweddion emynau'r Diwygiad Methodistaidd yw'r pwyslais ar brofiad personol y Cristion wyneb yn wyneb â'i Dduw tra bo'r Salmau Cân, o raid, yn adlewyrchiad o brofiad rhywun arall. Efallai mai dyna'r rheswm mai dim ond dau emyn o waith Edmwnd Prys sydd yn *Caneuon Ffydd* sef rhifau 75 a 120. Serch hynny fe ddylai cynulleidfa pob eglwys a chapel gael cyfle eleni i ddathlu ei gymwynas fawr â'n cenedl. Y ffordd orau i wneud hynny fyddai canu'r ddau emyn a rhyfeddu at ei gampwaith.

## FFOADURIAID



FFOI I'R AIFFT GAN ALLY BARRETT

Mae Bwletin Polisi diweddaraf Cytûn (https://www.cytun.co.uk/hafan/bwletin-polisi-hydref-tachwedd-2021/) yn tynnu sylw at sawl mater pwysig gan gynnwys yr amgylchedd a COP26, yr argyfwng tai a sefyllfa ffoaduriaid sydd wedi gorfod gadael Affganistan. Mae llawer iawn o bobl wedi ffoi o'u gwlad, wrth gwrs, ers i heddluoedd a phersonél Prydain, America ac Ewrop gael eu tynnu allan o Affganistan ddiwedd Awst eleni. Fel Cenedl Noddfa, mae Cymru am helpu pobl sy'n wynebu'r fath amgylchiadau enbyd, a da yw gwybod fod Llywodraeth a holl Awdurdodau Lleol Cymru am chwarae eu rhan i helpu teuluoedd nad oes ganddynt unman i fynd. Mae nifer o bobl wedi cynnig lle yn eu cartrefi eu hunain, ond y prif angen yw am dai i deuluoedd. Gall unrhyw un sy'n gwybod am dŷ 3 llofft, allai fod ar gael am gyfnod o hyd at flwyddyn, gysylltu ag Adran Tai eich Awdurdod Lleol neu ffoaduriaid@gov.wales. Yr Awdurdod Lleol fydd yn delio â threfniadau gosod a'r ochr ariannol.



# GYDA'N GILYDD

gan Glyn Tomos

Mantais tyfu fyny mewn ardal chwarelyddol oedd bod digon o hen siediau segur o gwmpas y lle ar gyfer mynd i fochel rhag y glaw. Y funud yr oeddem yn gweld bod glaw ar y ffordd, byddem yn ei heglu hi am y sied agosaf, ac aros yno tan fyddai'r glaw wedi peidio. Chwilio am le mor sych a glân â phosibl i eistedd, a syllu ar y glaw yn disgyn yn ddi-stop tu allan, gan ysu iddi stopio, i ni gael mynd nôl allan i chwarae. Toedd sied segur, llwm a diflas ddim yn lle i aros ynddo yn rhy hir, er ei fod yn lle da i'n cadw ni yn sych.

Dyma'r atgof ddaeth i mi, wrth i ni gychwyn ar flwyddyn Eglwysig newydd ar drothwy Tymor yr Adfent. Gweld cymylau du ar y gorwel oedd ein profiad ni ddeunaw mis yn ôl pan ddaeth Covid 19 i'n bywydau. Ninnau bryd hynny yn gwylio'r cymylau yn crynhoi ac yn peri i ni boeni a meddwl pa bryd mae'r aflwydd am ddod i'n plith, ac am ba hyd y bydd yn aros efo ni.


Roedd yn anodd ceisio cael atebion ac yn sydyn daeth popeth i stop. Daeth peiriant bywyd prysur i stop ar amrantiad. Yn sydyn, roedd y strydoedd yn wag. Daeth yr arferol i ddechrau teimlo yn ddieithr, a daeth pethau dieithr yn rhyw normal newydd. Byddem yn aros gartref gan ryw amau bod gwaeth i ddod.

Hedfanai'r wythnosau heibio ac roedd rhyw deimlad nad oedd y sefyllfa anodd oedd ohoni am ddod i ben. Gwelem arwyr yn ein mysg, yn camu ymlaen, ac yn rhoi eraill yn gyntaf. Mae pob un ohonynt yn haeddu ein cymeradwyaeth. Roeddem oll yn rhannu ein tristwch, ein trallod a'n pryderon, ac yn dyheu yn ddyddiol am weld haul ar fryn. Yna yn araf, dechreuodd y glaw a'r gwynt ostegu wrth i'r cymylau ysgafnhau, ac o'r diwedd gwelsom olau'r haul yn torri trwodd.



Er nad ydym wedi dod allan yn llwyr o'r sefyllfa anodd sydd ohoni, rydym mewn lle llawer gwell a mwy gobeithiol ar ddiwedd eleni nag yr oeddem amser yma y llynedd. Er nad yw y cymylau i gyd wedi diflannu, ac na allwn fod yn ddi-hid a meddwl na fydd stormydd pellach, profiad pob un ohonom yw ein bod yn gryfach yn eu hwynebu gyda'n gilydd.

Y Nadolig hwn cawn wahoddiad unwaith yn rhagor i ddod at ein gilydd o gwmpas y preseb i groesawu'r baban Iesu i'n mysg. Taith anodd a heriol oedd honno i Mair a Joseff i Fethlehem, ond gyda gras a chymorth Duw, arweiniodd at ddyfodiad Mab y Dyn i'n mysg. Eto eleni, cawn gyfle i brofi cariad Duw tuag atom gan wybod y gallwn ddibynnu yn llwyr arno ef i gyd-gerdded â ni a wynebu pa bynnag storm sydd o'n blaenau. Mawr yw ein braint a'n diolch.



# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Ebeneser, Treuddyn

**GWASANAETHAU**
Cynhaliwyd ein Cyfarfod Diolchgarwch eleni ar nos Sul, 10 Hydref dan ofal y Parchg Ddr Jennie Hurd. Braf oedd gallu croesawu cynifer o bobl i'r cyfarfod. Yma hefyd ar 24 Hydref y cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch Capel y Rhos sef capel y Presbyteriaid, dan ofal Mrs Marion Simkin. Nid oedd modd defnyddio ysgoldy Capel y Rhos oherwydd cyfyngiadau Covid. Daeth nifer o gyfeillion o'r pentrefi cyfagos i'r gwasanaeth. Hoffem ddiolch yn fawr i'r Parchedigion Eirlys Gruffydd Evans a Marc Morgan am y gwasanaethau y maent wedi'u cynnal yn ystod y misoedd diwethaf.



Byddwn yn cynnal ein **Gwasanaeth Carolau dwyieithog blynyddol ar ddydd Sul, Rhagfyr 19eg am 2.30** y pnawn. Bydd y gwasanaeth dan ofal y Parchg. Eirlys Gruffydd Evans ac estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein dymuniadau gorau i Mrs Eiddwen Jones sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Cofiwn amdani yn ein gweddïau a dymunwn lwyr iachâd iddi. Cofiwn hefyd am Mrs Bronwen Gough, sy'n disgwyl triniaeth bellach. Mae sawl un arall o aelodau a chyfeillion y capel wedi cael anhwylder yn ddiweddar ac rydym yn falch o wybod eu bod yn gwella. Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r rhai hynny sydd ddim yn gallu mynychu'r capel ar hyn o bryd oherwydd gwaeledd.
Hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.
**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

★ Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth Robin a Ffion ★

### Ardal Bathafarn


**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau calonnog iawn i Rhodri a Rhian ar ddod yn daid a nain. Ganwyd merch i Awen ac Ifan yn Sir Fôn, sef Marged Alys. Pob bendith a hapusrwydd iddynt.

**OEDFAON**
Yn ystod mis Hydref bu Hedd ap Emlyn, Gwenda Humphries, Elwyn Ashford Jones, a'r Parchedig Marc Morgan yn arwain oedfaon ym Mathafarn a bu Marc yn dathlu'r Cymun yng Nglyndyfrdwy. Llawer o ddiolch iddynt.
Hyfryd oedd cael bod yn rhan o Wasanaeth Undebol Tref Rhuthun (Wythnos Un Byd) a gynhaliwyd yn yr Eglwys Gatholig. Dyma'r tro cyntaf i ni i gyd ddod at ein gilydd ers cyn dechrau'r pandemig a bu'n brynhawn bendithiol iawn. Y thema oedd Newid Hinsawdd, pwnc amserol ac eithriadol bwysig. Cymerwyd rhan gan Edwina ac Elizabeth dros Bathafarn.

**COFION**
Anfonwn ein cofion anwylaf at Olwen Griffiths, Lorna Wynne, Gwyn Atkinson, Gretta Davies a phob un nad yw mewn iechyd da.

**PROFEDIGAETH**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â theulu'r ddiweddar Lilian Jones, gweddw'r Parchg George Emlyn Jones. Roedd Lilian yn rhan o deulu ffyddlon capel Wesle Clocaenog flynyddoedd yn ôl, lle cawsom fwynhau ei chwmni hwyliog.
**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

**ARWYDDION AELODAETH**
Dyma lun Arwydd Aelodaeth hen ewythr i Elizabeth, o Ragfyr 1897, ynghyd ag Arwydd Aelodaeth 2021-22. Yr arddull wedi newid, ac un Arwydd y flwyddyn bellach yn lle un bob chwarter, ond yr un yw ffyddlondeb pobl Dduw a'r un yw'r fraint o gael bod yn aelod yn yr Eglwys Fethodistaidd.


Eglwys y Trefnyddion Wesleyaidd.
Arwydd Chwarterol Aelodaeth.
RHAGFYR, 1897.
Duw sydd noddfa a nerth i ni, cymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder. *Salm* xlvi. 1.
I
Lloyd E. Williams


Galwad yr Eglwys Fethodistaidd yw ymateb i efengyl cariad Duw yng Nghrist a byw fel disgyblion mewn addoliad a chenhadaeth.
Fel aelod o'r Eglwys Fethodistaidd fe'm gelwir:
I addoli ...
I ddysgu a gofalu, ...
I wasanaethu, ...
I efengylu, ...
Enw
Gweinidog
Ymwelydd bugeiliol | Blaenor rhestr
Eglwys leol
www.methodist.org.uk
Facebook | Twitter | YouTube | Instagram | Flickr
Yr Eglwys Fethodistaidd

### Ebeneser, Eglwysbach

**DIOLCHGARWCH**
Ar fore Sul y 3ydd o Hydref cynhaliwyd ein Cyfarfod Diolchgarwch dan arweiniad y Parchedig Philip Barnett. Braf oedd cael cwmni aelodau capel Bethania. Diolch i Diana ein horganydd ac i Deryl am y trefniant blodau tymhorol.
**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER

### Sant Paul, Aberystwyth

**ARDAL NEWYDD CEREDIGION A MEIRIONNYDD**
Ar 30 Medi cynhaliwyd Cyfarfod Ardal cyntaf Ceredigion a Meirionnydd, gyda rhai yn bresennol yn yr Oruwchystafell yng Nghanolfan Sant Paul ac eraill yn ymuno ar Zoom. Yn absenoldeb ein Harweinydd, y Chwaer Eluned Williams, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Parchg Ddr Jennie Hurd. Anfonwn ein dymuniadau gorau i Eluned gan edrych ymlaen yn fawr at ei gweld pan fydd ei hiechyd yn caniatáu. Diolch iddi am baratoi ein Plan. Pleser mawr oedd croesawu i'n plith y Parchg Patricia Grudgings i arwain rhai o'n gwasanaethau ac rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'r Parchg Phillip Poynor ac i Ann Price a Dionne Sherwood o'r gynulleidfa Saesneg yn Aberystwyth am arwain oedfaon yma.
**GOHEBYDD .** LIONEL MADDEN



### Tabernacl, Llanfyllin

**DIOLCHGARWCH**
Huw Ellis oedd yng ngofal y gwasanaeth diolchgarwch eleni a chawsom wasanaeth gwahanol i'r arfer. Wedi rhagarweiniad bywiog, roedd pum gweithgaredd wedi eu paratoi ar ein cyfer yn y festri, pob un yn ein helpu i ddiolch am lawer o bethau ac yn rhoi cyfle inni sgwrsio a thrafod. Os nad oeddech am fynd i'r festri, roedd cerddoriaeth a lluniau addas i'w gweld ar sgrin yn y capel, gyda chyfle i fyfyrio'n dawel. Rhywbeth at ddant pob oed. Diolch i Huw am y cyfle i addoli mewn ffordd wahanol.

**NEWID AELWYD**
Dymuniadau gorau i Marian a Glyn Roberts sydd wedi symud i fyw i Groesoswallt. Gobeithio y cânt ymddeoliad hapus iawn yno.

**GWOBR ARBENNIG**
Derbyniodd Keith a Decia Blacker wobr arbennig yn ddiweddar sef Gwobr Dug Cernyw, a gyflwynwyd iddynt am eu gwaith yn rheoli eu coedwig sef Coed Caeau Gwynedd. Mae Keith a Decia yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gerdded trwy'r goedwig bob blwyddyn gan godi arian at Gweithredu Dros Blant. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Meirion, Llinos ac Eos Jones a'r teulu i gyd, yn eu profedigaeth o golli mam Meirion sef Mrs Nancy Jones, Y Gadlas. Bu Mrs Jones yn aelod ffyddlon yng nghapel Wesle Rhos y Brithdir gydol ei hoes.

**GWELLHAD BUAN**
Dymuniadau gorau i Gareth Lewis, Hafod Lon, sydd wedi derbyn llawdriniaeth.
**GOHEBYDD .**
ALWENA FRANCIS

### Ebeneser, Dolgellau

**GWELLHAD**
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at y Chwaer Eluned wrth iddi barhau gyda'i thriniaeth.

**OEDFAON**
Yn ystod mis Hydref cawsom y fraint o gael ein harwain mewn oedfa gan y Parchedig Ruth Gee, Cyn-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd. Edrychwn ymlaen at ei hymweliad nesaf. Cynhaliwyd ein hoedfa Diolchgarwch ar 24 Hydref dan arweiniad Mr Ceri Jones, Tywyn. Addurnwyd y capel yn hyfryd gan rai o'n haelodau. Bu Nesta ac Efin wrthi'n brysur yn gwneud torchau lliwgar allan o bapur.
**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE



### Pendref, Dinbych

**ADDOLI YM MHENDREF**
Cawsom oedfa fendithiol ddechrau Medi dan arweiniad Royce Warner a gwasanaethau arbennig yn ystod y mis dan arweiniad Hywel Evans, Gwyn Williams, Elfed Evans a Medwyn Jones. Yn ystod mis Hydref hefyd cawsom oedfaon dan ofal Elizabeth Jones, y Parchg Ddr Jennie Hurd a'r Parchg Glyn Thomas, a hefyd Bethan Roberts a Heulwen Ellis. Diolch i'r blaenoriaid, Medwyn Jones a Heulwen Ellis, i'r cyfeilyddion, Vera Savage a Beti Roberts, ac i Gwyn Williams am arwain y canu. Cofiwn yn annwyl am yr aelodau sydd am wahanol resymau yn methu bod gyda ni.

**PRIODAS**
Oherwydd gwahanol broblemau gyda'r adeiladau dros y blynyddoedd ni chynhaliwyd priodas ym Mhendref ers tair blynedd ar hugain, ond er mawr lawenydd ar 18 Medi eleni fe gynhaliwyd priodas yma. Priodwyd Caeron Llwyd, mab Cledwyn a Siân Jones, ac Elliw Morris, merch Philip a'r ddiweddar Olwen Morris. Mae'r priodfab yn ŵyr i'r Parchedig Cledwyn Parry. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Jennie Hurd a chyfeiliwyd ar yr organ gan Vera Savage.




**EDRYCH I'R DYFODOL**
Ar 5 Hydref cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Ddr Jennie Hurd. Daeth nifer dda i'r cyfarfod ac, yn ogystal â'r adroddiadau arferol, trafodwyd dyfodol Synod a Chylchdaith Cymru, thema Synod Cymru 2021/22, a threfn gwasanaethau ar gyfer 2022. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau ariannol hael yn ystod y cyfnod anarferol hwn, ac i'r holl swyddogion am eu gwaith.

**DIOLCHGARWCH CAPELI DINBYCH**
Cynhaliwyd gwasanaethau diolchgarwch undebol capeli tref Dinbych ym Mhendref, ar y dydd Iau cyntaf yn Hydref yn ôl yr arfer, gyda chyfarfod gweddi yn y bore pan gymerwyd rhan gan Stan Lyall, Capel Mawr, y Parchg Graham Floyd, Lôn Swan, a Medwyn Jones, Pendref; yn yr hwyr wedyn cafwyd oedfa fendithiol dan ofal y Parchedig Marc Morgan. Diolch i Vera Savage ac Eirlys Dwyryd am gyfeilio.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu'r diweddar Barchedig Eifion G Jones, a fu am nifer fawr o flynyddoedd yn weinidog mawr ei barch yng Nghapel y Fron yma yn Ninbych. Bu'n gyfaill da i ni ym Mhendref a Salem gan bregethu yn y ddau gapel ar sawl achlysur, ac fe wnaethom hefyd fwynhau ei gwmni yn ein boreau coffi.
**GOHEBYDD .** MARY JONES

# O'R LLAN

## *gan y Canon Idris Thomas*




**"STORI SY'N ANRHEG EI HUNAN"**

Ganed Iesu i fyd a chymdeithas oedd yn gythryblus, ansicr a chreulon. Gwawria Gŵyl y Geni 2021 hefyd ar fyd gofidus, trallodus ac ofnus. Mae teimlad o bryder yn ein calonnau wrth i Covid 19 barhau i fod yn fygythiad gwirioneddol. Ond er gwaethaf y bygythiadau, ni chyll y Nadolig ei swyn. Geilw'r Ŵyl arnom i deithio i Fethlehem i "weld y peth hwn a wnaethpwyd, yr hwn a hysbysodd yr Arglwydd i ni." Cyfeiriwn ein llwybr felly at y preseb llwm i addoli gyda'r bugeiliaid ac i offrymu gyda'r doethion. Y fraint fwyaf a gawsom fel dynoliaeth oedd i Dduw ei hun ddewis cnawd dynol fel cyfrwng ei ymddangosiad i'n byd. Yng ngeiriau'r Ficer Pritchard:

Pan ddaeth o'r nef i brynu dyn
Fe gymerth arno'n lliw a'n llun.
A'n gwir gnawd o Fair ei Fam,
'Rhon oedd Wyryf bur, ddi-nam.

Yr un rhyfeddod sy'n cael ei fynegi yn yr englyn hwn gan Peredur Lynch, fod Duw wedi cymryd cnawd:

Mewn beudy, mewn baw eidion – un nos oer
Yn sŵn yr aerwyon,
Gwireddwyd hen freuddwydion
A ganed Duw o gnawd hon.

Wrth gwrs, mae'r Ŵyl yn mynd â ni bob gafael i gyfnod plentyndod. Yng ngeiriau Alan Llwyd:

"Ac mi welaf innau fy hen Nadoligau drwy luwch araf f'atgofion yn nofio'n ôl".

Meddai Rhydwen Williams yntau:

"Mae rhywbeth gogoneddus a gwaredigol iach
pan yw'r byd fel y tu-mewn i feddwl plentyn bach".

Ac fel hyn y mae Myrddin ap Dafydd yn mynegi'r rhyfeddod:

"Stori sy'n anrheg ei hunan,
Yn gariad ar hyd y daith,
Sy'n dal i dywynnu ei golau
Drwy ugain canrif faith".

**TRYSORAU CYMRAEG ESGOBAETH BANGOR**

Un o brif freintiau bywyd i mi, fel i'm teulu gynt, oedd perthyn i Eglwys (Anglicanaidd) uniaith Gymraeg sef y Santes Fair (yr Eglwys fach fel y'i gelwid) yng nghymdogaeth y garreg las yn Ninorwig. Roedd hyn yn wir yn y cyfnod hwnnw am gymaint o Eglwysi a Phlwyfi eraill ledled Cymru. Heddiw mae gwasanaethau dwyieithog wedi disodli oedfaon uniaith Gymraeg.

"Beiling gawn ni bob Sul," meddai cyfaill o Fôn wrthyf ar stryd Bangor yn ddiweddar, "gyda'r bregeth bob tro yn uniaith Saesneg!"

Mae hyn yn fy arwain i sôn am y gwaith amhrisiadwy a wnaed am gynifer o flynyddoedd gan griw ymroddedig a diflino yma yn Esgobaeth Bangor, i greu deunydd Cymraeg arbennig yn ysgrifenedig a cherddorol.

Roedd Esgobaeth Bangor fy mhlentyndod yn cyhoeddi deunydd Cymraeg amrywiol, cyfoethog ac ardderchog i bob oed ac roedd y deunydd i blant yn drysorau i mi ac i bob plentyn yn y cyfnod. Bryd hynny, Pwyllgor Plant a Chartrefi Esgobaeth Bangor oedd yn eu cyhoeddi a Gwasg adnabyddus Gwenlyn Evans yn nhref Caernarfon oedd yr Argraffwyr. O fy mlaen mae un o'u cynnyrch nodweddiadol ymysg eraill sef "Tŷ Ein Tad" gan Myfanwy Jones a'r darluniau gan Rachel Closs Parry a'r pris yn swllt. Mae'r diwyg, yn brint a lluniau, yn glir ac effeithiol i bob plentyn.

Yn ogystal, roedd Pwyllgor Cerdd Esgobaeth Bangor yn hynod ddiwyd a chynhyrchiol hefyd ac aiff hanes prysur y Pwyllgor hwn yn ôl i dridegau'r ganrif ddiwethaf. Y dydd o'r blaen bûm yn trafod gwaith y Pwyllgor Cerdd gyda James Griffiths, Glasinfryn, a roes flynyddoedd hirfaith o wasanaeth yn y maes pwysig hwn. Un arall mawr ei gyfraniad oedd Cledwyn Jones, Penrhosgarnedd (triawd y Coleg gynt) sydd yn 98 oed ac mor ifanc ei ysbryd o hyd. Rwy'n siŵr fod darllenwyr y Gwyliedydd yn anfon eu cyfarchion ato.

Aelod gwerthfawr o'r Pwyllgor Cerdd hefyd oedd y diweddar ysgolhaig disglair y Dr Enid Pierce Roberts. Ar nodyn personol, rhoddodd hi gymaint o gymorth a deunydd amhrisiadwy i mi pan drefnais Bererindod fawr yr Esgobaeth yn 1992, o Roshirwaun i Uwchmynydd ac Enlli, a hefyd wrth ddathlu Pen-blwydd Esgobaeth Bangor yn 1450 mlwydd oed (546-1996) ar dir ystâd Glynllifon. Rhai o gynhyrchion y Pwyllgor Cerdd oedd Moliant y Llan, Llawlyfr y Gosber, Emynau'r Llan a Llyfr Carolau Bangor. Roedd Pwyllgor Addysg Oedolion yr Esgobaeth hefyd yn brysur iawn yn cyhoeddi llyfrynnau cyfoethog a defnyddiol megis "Y Flwyddyn gyda'r Eglwys" ac o'r un stabl "Y Llyfr Gweddi Gyffredin - ei batrwm a'i gynnwys", a hefyd "Hanes y Beibl Cymraeg".

Soniais yn gynharach am waith Pwyllgor Plant a Chartrefi Esgobaeth Bangor ac un o'i gyhoeddiadau yn 1962 oedd "Llyfr Gweddïau i Blant Bach". Awdur y penillion oedd R. W. Marianglas (Y Parchedig Robert Williams) gyda'r darluniau gan J.O. Hughes a'i bris yn swllt a chwech. Atodaf i chwi benillion i'r Nadolig gan R.W. a darlun yn cwmpasu'r Ŵyl gan John Owen Hughes a fu'n athro Celf yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch. Cofir amdano a diolchir iddo am warchod Eglwys Llanwenllwyfo a'i chasgliad rhyfeddol o ffenestri a phaneli gwydr lliw Ffleminaidd o'r 15fed a'r 16eg ganrif.

Nadolig Llawen i Robin a Ffion a phawb sy'n gysylltiedig â'r Gwyliedydd ac i'w ddarllenwyr selog.



# Eglwys Wyllt




Wrth fynd am dro drwy'r glennydd teg a'r dolydd, meddai'r emyn, y bydd ein calonnau yn datgan byth, fy Nuw, mor fawr wyt ti. Mae rhywun yn aml yn gallu ymdawelu wrth fwynhau byd natur, a hynny'n ein helpu i nesáu at Dduw.

Mewn llannerch yng nghoedwig hynafol Parc Meurig, Bethesda, yr aeth y Parchedig Sara Roberts ati yr haf diwethaf i gynnal eglwys awyr agored neu Eglwys Wyllt. Rhan yw hyn o gynllun cymunedol arloesol dan nawdd Esgobaeth Bangor yr Eglwys yng Nghymru, ond caiff unrhyw un ddod. Yng ngeiriau Sara: "Roeddwn i eisiau creu gofod lle mae gan bobl y rhyddid i ddod, i eistedd, i fod ac i fyfyrio."

Daeth pobl o bob oed ynghyd i wasanaethau syml yr Eglwys Wyllt lle cafwyd darlleniad o'r Beibl, cyfraniad gan offerynwyr, a chyfle i rannu a gweddïo gyda'n gilydd. Pan ddaeth yr hydref, defnyddiwyd lle mwy cysgodol sef byrddau y tu allan i 'Sied Cyn-filwyr' Bethesda.




Yno fe ddathlwyd Cymundeb awyr agored. Yr emyn a ganwyd yn y gwasanaeth hwnnw oedd 'Ysbryd y tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni': boed Ysbryd Duw gyda Sara a phawb a ddaw yn nes at Dduw trwy ei gwaith.

**Ff.R.**

# LLONYDDWCH

## *gan y Parchedig Euron Hughes*

Mae nifer o bobol yn tristáu wrth i'r hydref droi tua'r gaeaf. Ac wedi troi'r clociau'n ôl awr, mae'r dydd yn byrhau, a'r nosweithiau a'r tywyllwch yn hir.

Ond pan fydd rhywun yn gofyn y cwestiwn i mi, " Beth yw dy hoff dymor?" yr ateb slic bob tro yw: "Y tymor pêl-droed."

Tydw i ddim yn ffan mawr o wres a golau cryf didostur yr haf. Yng ngwres Mehefin byddem fel plant yn eistedd mewn neuaddau crasboeth yn ceisio canolbwyntio ar arholiadau. Yn yr haf pan fydd hi'n boeth mae hi'n anodd cysgu; os ydych yn agor ffenest yn eich ystafell wely mae fflyd o bryfetach yn heidio i'r ystafell. Ac mae pobman yn brysur yn yr haf… roedd Llyn Tegid nid nepell o'r tŷ yn berwi hefo pobol. Da iawn i fusnesau twristiaeth, a braf gweld pobol yn cael cyfle i ymlacio, ond rargol oedd na ddim lle i droi yn lleol.

A dyma ni, bellach wedi troi'r cloc, a'r gaeaf ar ei ffordd… y Nadolig ar ei ffordd.

Pan oeddwn yn blentyn roedd yn well gennyf dymhorau yr hydref a'r gaeaf. Roedd hi'n ymddangos i mi fod gan bobol fwy o amser. Mwy o amser i eraill ac i gymdeithasu, mwy o amser i arafu a myfyrio.

Yn ddiweddar iawn wrth yrru tuag adra o gyfeiriad y Bala mi stopiais y car wrth lan Llyn Tegid i dynnu'r llun hwn. Llonyddwch a mwynder y machlud yn yr hydref. Ond beth wnaeth fy nharo oedd, oherwydd llonyddwch a natur drych y llyn, fod adlewyrchiad y cymylau bron â ffurfio cylch. Ac o'r llyn ei hun dim ond y wyneb rydym yn ei weld, dim ond ernes o'r llyn cyfan.



Cylch cyson di-dor yw natur. Cylch cyson di-dor yw'r tymhorau. Ac er mor hir a thywyll yw nosweithiau y gaeaf rydym yn ffyddiog yn nhrefn natur y daw dyddiau'r gwanwyn.

Yn Salm 104 gwelwn yr adnod sydd yn dweud:

"Yr wyt yn gwneud i'r lleuad nodi'r tymhorau, ac i'r haul wybod ymhle i fachlud."

Ffydd mewn trefn a osodwyd gan Dduw. Ffydd. Ffydd yw eistedd yn ôl pan mae pethau yn oeri yn ein bywydau ac ymddiried yn Nuw.

Mae'r llonyddwch yna yn gallu bod yn anodd i'w gyrraedd, oherwydd rydym byth a beunydd yn brysur yn gwneud ac yn rhedeg o le i le. Ond mae y gaeaf yn gwneud inni arafu a phwyllo. Felly wrth i'r nosweithiau hir gau amdanom, beth am inni lonyddu yn glyd wrth y tân i fyfyrio ar yr hyn sydd i'w gael mewn bod yn rhan o drefn iachawdwriaeth Ein Tad.

# Capel Ni
yn Eglwys Iesu

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**DYMUNIADAU GORAU**
Cofiwn yn gynnes at yr aelodau nad ydynt wedi gallu bod gyda ni oherwydd salwch. Mae'n dda gennym fod Llinos yn ôl yn ei gwaith ar ôl syrthio a thorri ei harddwrn a'i bys wrth fynd â'r ci am dro. Ara deg, rŵan!

**ER COF ANNWYL**
Yn 103 mlwydd oed, bu farw Miss Gwyneth Môn Hughes, chwaer annwyl Eirwen a'r diweddar Gwilym a Dilys a modryb Elfed, Owen, Marian, Siân, Selwyn a Trefor. Bu'n aelod ym Mhreswylfa am lawer blwyddyn, a hyd y diwedd byddai'n parhau i roi blodau yn y capel pan ddeuai ei thro. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu i gyd.

Yr un yw ein cydymdeimlad â theulu'r diweddar Mr Dennis Roberts, annwyl bartner Margaret a thad a thaid Ann a Glyn, a fu farw'n 94 oed. Roedd yn aelod gweithgar ym Methel, Deganwy, ac yn barod i fynegi barn mewn Cyfarfodydd Ardal. Byddem yn falch o'i weld bob amser ym Mhreswylfa a bydd colled fawr ar ei ôl.

**DIOLCHGARWCH**
Pnawn Sul, 17 Hydref cafwyd oedfa ddiolchgarwch fendithiol iawn dan arweiniad Mr Owen Morris. Braf oedd cael croesawu aelodau Eglwys Pensarn atom a hefyd Siân Garstang o Brestatyn, cyn-aelod yma. "Diolch, diolch Iesu yw ein cân". Rhannwyd y ffrwythau, llysiau a blodau i rai o'r cleifion.
**GOHEBYDD .** EIRIAN JONES

## Bethel, Rhiwbeina

**CROESO**
Yn ystod mis Hydref cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud y Parchedigion Robert Owen Griffiths ac R. Alun Evans a hefyd ein gweinidog y Parchedig Evan Morgan. Ar 10 Hydref braf oedd cael cyfle i ganu emynau diolchgarwch – er i'r mygydau amharu ar y sain! Diolch i Gwilym Roberts am drefnu ac am gyfeilio. Yna ym mis Tachwedd da cael croesawu Emlyn Davies, Helen Jones, Delwyn Siôn a Lona Roberts i arwain ein gwasanaethau. Mae croeso cynnes i bawb a byddwn yn falch iawn o'ch gweld. Nid oes bellach angen ffonio i gadw lle, ond gofynnwn i bawb wisgo mwgwd a dilyn rheolau Covid o fewn yr adeilad.

Ar 29 Tachwedd trefnwyd Bore Coffi i godi arian at elusen 'Mind', gydag adloniant gan Siân Francis.
**GOHEBYDD .** GWENDA FRANCIS

## Ardal Glannau Maelor



**BEDYDD**
Ar fore Sul 3 Hydref, bedyddiwyd Edward Wyn Morgan yn Eglwys St Joseph, Merryhill, Wolverhapton, lle priodwyd ei rieni Owain a Lucy. Gweinyddwyd gan y gweinidog y Parchg. Tim Eady, ynghyd â thad-cu Teddy Wyn, y Parchg. Marc Morgan. Braf oedd cael dathlu'r achlysur gyda theulu, ffrindiau ac aelodau'r eglwys. Dymunwn yn dda i Owain, Lucy a Teddy Wyn yn eu cartref newydd yng Nghaer ac i Owain yn ei swydd newydd gyda chwmni rheilffordd.
**GOHEBYDD .** MARGARET MORGAN

## Shiloh, Tregarth

**GWASANAETHAU**
Diolch i'r Parchedigion Richard Gillion, Philip Barnett, Gwyndaf Jones, Idris Thomas a Richard O Jones am arwain gwasanaethau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae mor braf dod at ein gilydd ar gyfer y gwasanaethau.


**PEN-BLWYDD HAPUS**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at y Parchg Gwynfor Williams a ddathlodd ei ben-blwydd yn 89 ddechrau Tachwedd. Ein dymuniadau gorau iddo ef a'i briod Katie. Pen-blwydd hapus hefyd i'n horganydd, Wynn Williams.

**PROFEDIGAETH**
Cydymdeimlwn â Kevin a Nia Hughes yn eu profedigaeth o golli mam Kevin, sef Mrs Jean Hughes, Y Felinheli, ar Fedi 24.

**YMLADDWR TÂN YNG NGHANADA**
Ar raglen radio Aled Hughes yn ddiweddar cawsom glywed sgwrs gyda Llŷr Temple Morris, gynt o Dregarth, am ei waith yn ymladdwr tân yn British Columbia. Eleni bu tanau enfawr yn llosgi ar hyd cannoedd o erwau o dir ac yn rhwygo drwy fforestydd, tiroedd amaethyddol a thros fynyddoedd a ffriddoedd eang. Mae'r gwaith yn anodd a pheryglus a rhaid gweithio am oriau i frwydro'r fflamau. Bu Llŷr a'i frawd Gwydion yn aelodau yn Ysgol Sul Shiloh a'i fam Siân yn aelod hefyd cyn ymfudo i Ganada. Anfonwn ein cofion atoch.

**AM DRO**
Diddorol hefyd oedd gweld un arall o gyn-aelodau'r Ysgol Sul ar raglen deledu 'Am dro' yn ddiweddar, sef Bleddyn, mab Angharad a Gerallt Williams. Dewisodd Bleddyn fynd â'r tri arall oedd yn cymryd rhan am dro i Lyn Bochlwyd ger Cwm Idwal a mwynhaodd y pedwar nofio yn y llyn.

**NEGES GAN DDAWNSWRAIG FYDDAR**
"Does dim angen clywed cerddoriaeth i allu dawnsio a'i fwynhau. Gallwch deimlo curiadau cerddoriaeth drwy eich corff sy'n rhoi profiad cwbl unigryw i chi." Dyna neges Nel Mai, un o bobl ifanc Shiloh sy'n ddawnswraig stryd a hop ac sydd yn fyddar. Dros yr wythnosau diwethaf mae gwylwyr *Stricly Come Dancing* wedi bod yn dilyn yr actores Rose Ayling-Ellis, y seleb byddar cyntaf i ddawnsio ar y rhaglen. Mae Nel yn falch i Rose roi gwybod am y modd y mae pobl fyddar yn dysgu dawnsio drwy deimlo cryniadau'r gerddoriaeth. Os ewch ar wefan Cymru Fyw cewch fwy o hanes Nel a'i gweld yn dawnsio.



**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES
*[ Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf fel eglwys â Gwenda a'r teulu oll ym marwolaeth ei gŵr Glyn.]*

## Saron, Bethel, Arfon

**CYFARFOD BLYNYDDOL**
Ar 10 Hydref cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol dan arweiniad ein gweinidog, y Parchg Richard Gillion. Diolchwyd i bawb am eu gwaith drwy'r flwyddyn ac amlinellwyd y newidiadau mawr fydd yn dod i'n rhan fel Synod yn ystod y flwyddyn nesaf. Anfonwyd ein cofion at nifer o'n haelodau a'u teuluoedd sy'n dioddef gwaeledd hir dymor, gan ddiolch yn fawr i'r rhai sy'n gofalu amdanynt mor ffyddlon.

**CYFRANIAD Y PLANT**
Mae'r pedwar plentyn sydd mor selog yn ein gwasanaethau bob Sul yn bwysig iawn i ni fel Eglwys. Byddwn yn annog pob pregethwr i ddweud gair neu ddau yn arbennig ar eu cyfer. Ar yr ychydig Suliau hynny pan nad oes gennym bregethwr, y plant, gyda help Mam a Nain, fydd yn cynnal yr Oedfa.

**GOHEBYDD .** RJ



## Salem, Rhyd y foel

**CYDYMDEIMLO**
Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu'r ddiweddar Emily Jones a fu'n aelod ac athrawes ysgol Sul yn ein chwaer eglwys, Horeb, Betws yn Rhos. Yr un yw ein cydymdeimlad â Dennis a Menna Mc Breeze a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith Dennis, sef Heulwen Mc Breeze, o ganlyniad i ddamwain.

**COFION**
Anfonwn ein cofion at Eryl Roberts, Tan yr Ogof, gan ddymuno iddo wellhad.

**DIOLCHGARWCH**
Ddydd Sul 17 Hydref cynhaliwyd ein gwasanaeth o Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf o dan ofal Catherine Blythin. Roeddem yn falch iawn o gael croesawu rhai o aelodau Hyfrydle, Betws yn Rhos. Cymerwyd rhan gan Ruth Roberts. Roedd y capel yn edrych yn odidog gyda blodau a chynnyrch yr Hydref. Yn dilyn y gwasanaeth mwynhawyd cinio yng ngwesty'r Fferm, Betws yn Rhos. Diolch i Esther a Mona am y trefniadau ac i Esther, Menna a Kathleen am addurno'r capel, hefyd i bawb am eu cyfraniadau i'r banc bwyd.




**CROESO'N ÔL**
Braf iawn oedd croesawu ymwelwyr sef Elfrys (Davies gynt, Plas Newydd) a'i phriod, sy'n byw yn Llundain ac a briodwyd yma yn Salem 50 mlynedd yn ôl. Ddechrau Hydref hefyd cawsom gwmni Iorwerth, mab y diweddar Barchedig a Mrs John Alun Roberts, ynghyd â'i deulu, o Norwy. Roedd Iorwerth yn falch o ailymweld â Chartrefle, mans Rhyd y Foel gynt, lle mae Ieuan a Siân yn awr yn byw.

**DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL**
Ym Mehefin eleni bu cwmni Rondo yn Salem ac yng ngardd Cartrefle, yn recordio cyfweliad gan Lisa Gwilym gyda Dr Prydwen Elfed-Owens gogyfer â rhaglen Dechrau Canu a ddarlledwyd ar 3 Hydref. Treuliodd Prydwen ran o'i phlentyndod yn Rhyd y Foel pan oedd ei thad, y Parchg Huw D. Williams yn weinidog yma. Fel y gwyddys bu iddo gymryd ei fywyd ei hun oherwydd afiechyd meddwl. Mewn cyfweliad teimladwy siaradodd Prydwen o'r galon am ei phrofiad personol a'i bwriad i godi ymwybyddiaeth a chwalu'r tabŵ a'r stigma a fu ynghlwm â salwch meddwl a hunanladdiad.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## Bethel, Prestatyn





**BEDYDD**
Bedyddiwyd Eben Elis, mab bach Liam a Manon Duffy ar 17 Hydref mewn Gwasanaeth Teulu. Ein bugail y Parchg Brian Huw Jones oedd yn gwasanaethu a chafwyd anerchiad arbennig i'r plant ganddo, ynghyd â'i byped, am bwysigrwydd diolch. Hyfryd oedd croesawu teulu Eben a mwynhawyd eitemau cerddorol hefyd gan blant yr Ysgol Sul. Cyflwynwyd Beibl Plant i Eben, sydd eisoes wedi bod yn y capel a'r Ysgol Sul gyda'i frawd mawr Noa a'i chwaer fawr Casi. Boed bendith arnoch fel teulu.

**CROESO**
Croesawyd dau deulu newydd yn ystod y misoedd diwethaf sef Jenny a Gareth a'u merched bach Eve ac Olive, a Carla Joyner a'i merched bach Beatrice ac Francesca. Bu Jenny a Carla yn aelodau o'r Ysgol Sul yn eu plentyndod ac mae'n hyfryd eu bod wedi dychwelyd gyda'u teuluoedd eu hunain. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn ein plith.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn wellhad i Mrs Eluned Owen a Mrs Eirlys Davies ac fe gofiwn yn ein gweddïau bob un o'r aelodau sydd yn methu mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd neu'r angen i hunanynysu.

**PANED A SGWRS**
Mae'n hyfryd ein bod wedi gallu ailgychwyn Paned a Sgwrs ar fore dydd Mercher. Croeso cynnes iawn i unrhyw un hoffai ymuno.
**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

## Eglwys Unedig Colwyn

**CYD-ADDOLI**
Wedi treulio Suliau mis Hydref yng nghwmni ein cyfeillion yn Ebeneser, cawsom y fraint o'u gwahodd hwythau i gydaddoli â ni yn Horeb yn ystod mis Tachwedd.

**CYFARFOD BLYNYDDOL**
Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol yn Horeb ar 10 Tachwedd a chawsom y pleser o groesawu'r Parchg Jennie Hurd. Diolch iddi am ein harwain drwy'r trafodaethau. Wrth drafod y sefyllfa ariannol, eglurodd Arfon a Ken am y gwaith sy'n digwydd gyda'n dau addoldy a'r tri thŷ sydd dan ein gofal. Diolch i John am ei waith yn cadw cofnodion.

**GWELLHAD BUAN**
Da gweld fod Gwenllian yn gwella yn dilyn codwm. Cofion annwyl at bawb sy'n methu dod i'r gwasanaethau am wahanol resymau.
**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES



# Cerddorfa Aurora: Y Gamp O Gofio

## *gan Gareth Blainey*

Tybed ydych chi erioed wedi gorfod dysgu darn o gerddoriaeth i'w ganu neu i'w berfformio ar offeryn heb gopi o'ch blaen, ar gyfer cystadleuaeth neu gyngerdd? Rydw i wedi gwneud hynny droeon cyn canu fel aelod o Gôr Godre'r Garth mewn cystadlaethau i gorau cymysg yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac eisteddfodau eraill neu mewn cyngherddau. Gwn o brofiad pa mor anodd all hynny fod, yn enwedig pan fo llinellau cerddorol y pedwar llais yn y côr – soprano, alto, tenor a bas – yn wahanol iawn i'w gilydd. Mae'n her a hanner i'r cof. Gall fod yn brofiad bendigedig ac yn brofiad brawychus hefyd!

Ystyriwch felly faint o gamp yw hi i gerddorfa berfformio darn heb gopi. Dyna mae Cerddorfa Aurora wedi'i wneud nifer o weithiau ers ei sefydlu yn Llundain yn 2004. Mae'r gerddorfa hon wedi perfformio darnau ar y cof yn un o gyngherddau'r 'Proms' ar lwyfan Neuadd Frenhinol Albert yn Llundain bob blwyddyn ers 2014. Ymhlith y darnau hynny mae dwy symffoni olaf Mozart (rhifau 40 a 41 sydd â'r llysenw 'Jupiter'); dwy o symffonïau Beethoven (rhif 3, yr 'Eroica', a rhif 6, y 'Pastoral'); y 'Symphonie fantastique' gan Berlioz; a'r 'suite' 'Yr Aderyn Tân' gan Stravinsky. Dyna'r darn heriol berfformiodd y gerddorfa yn ystod y 'Proms' ym mis Awst eleni. Rhyfeddais at allu'r aelodau a'u harweinydd Nicholas Collon oedd heb gopi hefyd wrth imi wylio ar y teledu.

Ar ddiwedd y perfformiad roedd hi'n amlwg fod y gerddorfa wedi cael boddhad mawr. Mae fideo ar y we sy'n dangos tri feiolinydd a fu'n aelodau o'r gerddorfa yn siarad am y wefr maen nhw'n ei chael wrth berfformio ar y cof. Mae'r tri'n gytûn fod gwneud hynny yn brofiad buddiol. Yn ôl Tamara Elias mae perfformio heb gopi 'yn gwneud byd o wahaniaeth'. Mae Jamie Campbell o'r farn 'er gwaetha'r nerfau a'r pwysau rydyn ni'n eu teimlo rydw i'n credu ein bod ni'n perfformio'n well'. Ac yn ôl Elizabeth Cooney 'gallwn ni gyfathrebu'n well ymysg ein gilydd a hefyd gyda'r gynulleidfa. Does dim rhwystr'.

Yn sicr doedd dim 'rhwystr' pan lwyddodd y gerddorfa i gyfareddu'r gynulleidfa gyda'u dehongliad o gerddoriaeth Stravinsky ychydig fisoedd yn ôl. 'Dazzling' oedd y disgrifiad o'r perfformiad yn yr adolygiad ym mhapur newydd yr Evening Standard a fedra i ddim llai na chytuno.

## Nadolig yn San Clêr

Mae'r Diacon Jon a'r Eglwys Heb Furiau yn San Clêr wedi rhoi fideo difyr ar y We, https://youtu.be/7F_1MFZns10, i wahodd pobl i gymryd rhan yn Nrama'r Geni ar-lein, ar Facebook ac Instagram, eleni. Mae sawl gweithgaredd arall ar y gweill hefyd – un ohonynt yw'r Helfa Ddefaid yn ystod yr Adfent. Yn ôl y sôn aeth defaid bugeiliaid Bethlehem ar goll ac maent yn cuddio mewn siopau, coed a gwelyau blodau o gwmpas y pentref. Bydd cael hyd iddynt yn hwyl a hanner! Yn nes at y Nadolig cynhelir Drama'r Geni gyda Lego. Boed bendith ar waith yr Eglwys Heb Furiau wrth iddynt ymestyn allan at y gymuned gyfan.







# Wrth fynd heibio

## *gan William H. Owen*



Rhwng difri a chwarae y dywedwyd un tro fod pob siaradwr Cymraeg wedi ymddangos ar y teledu. Wrth weld y rhaglenni yn dathlu trigain mlynedd Dechrau Canu Dechrau Canmol mae'n hawdd credu fod hynny'n iawn.

Mae chwe deg o flynyddoedd yn amser hir a daeth DCDC i fodolaeth ymhell cyn geni Sianel Pedwar Cymru. Fel yn hanes rhaglenni llwyddiannus a ddaeth ar ei hôl – C'mon Midffild er enghraifft – ar y radio y bu'r dechreuad. Gwyddai mawrion y BBC yng Nghaerdydd am boblogrwydd Caniadaeth y Cysegr ar bnawniau Sul ac nid oedd angen fawr o berswâd y gallai hon fod yn rhaglen deledu yr un mor llwyddiannus dim ond dechrau ar ei threfnu.

Yn 1961 y daeth i fodolaeth, cyn i BBC Cymru/Wales fod yn enw ffurfiol yn 1964. Er mai mewn du a gwyn yr oedd popeth ni wnâi hynny unrhyw wahaniaeth i ddenu cynulleidfaoedd i ganu o flaen y camerâu. Fel y gwelsom ni yn rhaglenni'r dathlu yn ddiweddar nid oedd yr un sedd wag i'w gweld adeg y recordio, er bod digon mewn gwasanaethau arferol mae'n siŵr ac mewn sawl cymanfa ganu ar hyd a lled gwlad ar y pryd.

Oedd, roedd y teledu yn denu yn y chwedegau a'r merched yn barod iawn i wisgo'u sbectols a'u hetiau gorau. Roedd y dynion yr un mor drwsiadus! Yn fwy na dim, roedd y canu'n ysbrydoledig hefyd a chanolbwyntio ar y canu a wneid, nid ar gynnal sgyrsiau gyda chymeriadau'r fro na chynnig elfennau o grefyddau eraill sydd byth i'w gweld yn canu emynau er clod i'w Duw.

Honno oedd oes aur Dechrau Canmol. Er bod crefydd ar drai bryd hynny, a'r canu pedwar llais wedi darfod yn ôl Alwyn Humphreys, roedd digon o dynfa o hyd i fynd i fan o addoliad i ganu. Wrth gwrs, dim ond dwy sianel oedd ar gael ac roedd hynny'n gosod y rhaglen mewn man cystadleuol cryf. Ar hyd y blynyddoedd bu newid mawr ac adlewyrchwyd hynny ym mhoblogrwydd y rhaglen ac yn y gynulleidfa oedd â'r awydd i ganu.

Ond hyd yn oed pan oedd hi hanner ei hoed presennol ac wedi gadael y BBC roedd hi'n mynnu dod i frig siart rhaglenni mwyaf poblogaidd S4C. Yn y pymtheng mlynedd diwethaf y gwelsom ddirywiad. Gwahoddwyd mwy o gorau i lenwi'r seti ac i hybu'r canu a doedd dim ots os oedd seti gwag yn ymddangos yn y corneli a'r ochrau, ac yn y galeri. Nid oeddynt yn gwneud dim mwy na dangos gwir gyflwr y gefnogaeth i'r Tŷ Cwrdd yn y Gymru oedd ohoni.

Mae'r pandemig wedi rhoi ergyd bellach i'r hen raglen. Sawl Sul gwelwyd yr un cynulleidfaoedd yn llenwi'r bylchau rhwng sgyrsiau, bron nad oedd rhai wedi dod yn aelodau o'r teulu. Gyda llacio'r gorchmynion mae corau bychain wedi ymddangos a'r aelodau'n sefyll ymhell oddi wrth ei gilydd mewn capeli ac eglwysi, a neuadd gyngerdd.

Er cystal ydynt, mae rhywbeth ar goll. Y rhywbeth hwnnw yw canu cynulleidfaol gydag angerdd ac argyhoeddiad a rhaid gofyn a welwn ni y fath beth fyth eto? Tywyllwch sydd yn y belen risial a dim ond canu'r gorffennol i gynnal y rhaglenni.

# Y Geni gan Jean Hey

©godongphoto/123RF.COM



Rhown i'r Mab ddaeth yn faban – o'n gorau
I gyrraedd ei amcan,
Duw a gaed o blaid y gwan.
Cofier, fe roes y cyfan.

O weld seren ei eni – y doethion
A deithiodd i'w foli,
Ninnau trown o'n trueni
At ŵr y Groes mewn taer gri.

**Alun Rhys Lewis**






# O'r Pen Yma

## gan Angharad Tomos



Dwi'n cofio edrych arno mewn syndod, yn methu deall beth oedd o. Ddechrau Tachwedd oedd hi, a dyna lle roedd o, lliw pomgranad, yn berl ar y glaswellt. Beth ar y ddaear oedd o?

Afal wedi syrthio ydoedd, afal ola'r goeden, ond doeddwn i ddim wedi ei ddisgwyl. Dotiais ato, at ei ffurf a'i liw a'r ffaith ei fod yno o gwbl. Mae'r pren afalau reit tu allan i ddrws y cefn, ac fe'i gwelwn bob dydd. Ni a'i plannodd yno, tua ugain mlynedd yn ôl. Bob blwyddyn rydym yn rhyfeddu wrth weld y blagur yn dod, y blodau hardd gwyn yn y gwanwyn, a'r ffrwyth yn araf ddatblygu nes fod y goeden yn llawn afalau cochion braf. Fe'i cawn yn gyson bob hydref, a does dim yn rhoi mwy o bleser i mi na chamu allan a thynnu'r ffrwyth oddi ar y pren. Anaml fyddai'n meddwl dweud diolch.

Ond rydan ni yn deud diolch, meddwch. Mae na ŵyl benodol yng nghalendr yr Eglwys sy'n neilltuo un Sul bob blwyddyn i fod yn ddiolchgar, sef Diolchgarwch. Un diwrnod allan o 365 o ddyddiau. Pam na wnawn ni adduned Flwyddyn Newydd i fod yn fwy diolchgar? Pam na ddiolchwn ddengwaith y dydd – bob dydd?

Arferiad sydd wedi mynd yn angof yw dweud gras bwyd. Rhywbeth dwi'n ei gysylltu â'r ysgol ydyw. Ac er mai tueddu i'w adrodd fel parot oedden ni cyn cythru am y bwyd, roedd o'n dal yn arferiad gwerth chweil. Gallwn ddweud 'diolch' tawel cyn bob pryd bwyd.

Gallwn ddiolch yn dawel ein bod yn cael deffro bob bore, gallwn roi gair o ddiolch i Dduw cyn cysgu. Yn raddol, gall ddod yn arferiad – diolch am gael wynebu bore yn ddi-boen, diolch am y modd mae eraill yn gofalu amdanom, diolch fod gennym do uwch ein pennau a'n bod yn gynnes...diolch am deulu neu ffrind, diolch ein bod yn cael gweld plant yn gwenu. Yn raddol, daw yn ffordd o fyw.

Wn i ddim amdanoch chi, ond fel arall dwi'n byw. Dwi'n disgwyl – neu yn hawlio – diwrnod di-rwystr, ac yn gwbl ffyddiog y caf bryd deirgwaith y dydd ac y bydd gen i wely ar y diwedd. Dwi'n cymryd fy iechyd yn gwbl ganiataol a phob bendith arall ddaw i'm rhan. Dyna fy hawl, dyna pam dwi'n talu trethi, mae'r pethau hyn yn ddisgwyliadwy a gwae beth bynnag ddaw rhyngof a hwy.

O ganlyniad, pan aiff pethau o chwith, dwi'n gwylltio a bytheirio. Pam fod y fath anlwc yn digwydd i mi? Pwy sydd ar fai rŵan? Pam na all pethau fynd yn iawn – dim ond unwaith? Be sy'n bod ar yr oes hon na fedran nhw wneud i bethau ddigwydd yn rhwydd?

A dwi'n flin – ddwsin o weithiau mewn dydd.

Mae byw bywyd diolchgar yn gwbl groes i hyn. Byw o 'syrpreis' dyddiol ydyw, byw o ryfeddu fod yr holl fendithion hyn yn dod i'm rhan – fel afal ola'r tymor.



# Gair o Ynys Môn – ond am America!

## *gan Edward Morus Jones*

Yn rhifyn Hydref-Tachwedd y Gwyliedydd, mewn erthygl ag iddi bennawd digon tebyg i'r un sydd yma, ymatebais i un o'r golygyddion diwyd a holodd 'Sut mae petha erbyn hyn yn yr Unol Daleithiau, Edward?' Yn yr ysgrif honno soniais ychydig am ran o Dalaith Pennsylfania – talaith a fu, ac sydd o hyd yn aml, yn allweddol bwysig i'r U.D.A. Ynddi hi a'i hanes y mae Mary a minnau fwyaf cartrefol. Soniais am natur y gymdeithas gysgodol, ddiogel o'n cwmpas, er ein bod yn byw yn agos iawn at ddinas anferth Philadelphia. Disgrifiais yr eglwysi yno sydd yn malio am eu cymdeithas ac sydd, ar y cyfan, yn cael cefnogaeth bur dda i'r oedfaon ac i waith ymarferol bywyd eglwys. Tua diwedd yr erthygl mentrais ddweud, 'Mae ein America ni ein dau...yn gyffyrddus-ddiogel, yn heddychol, gyda gwerthoedd cymdeithas Gristnogol yn amlwg drwyddi.'

Ddiwedd 2020 roedd y rhan fwyaf o'n ffrindiau ni'n dau yn yr ardal – (Sir Drefaldwyn, Montgomery County) – yn falch o weld Donald Trump yn cael ei ddisodli. Roedd Joe Biden yn berson mwy cymeradwy ac agosach i'r hyn fu'n arferol i ni ei ddisgwyl oddi wrth arweinydd gwlad, yn enwedig gwlad mor anferth a dylanwadol ag America! Bu'r ffordd y bu Trump yn gweithio, gan daflu unrhyw wrthwynebydd iddo allan a gwrthod gwrando ar gyngor rhesymol rhai oedd â phrofiad helaeth yn eu meysydd yn chwedl – do, yn chwedl drist. Roedd ei agwedd at ferched yr un mor wrthun â'i ffordd ffroenuchel o ddelio â'i wrthwynebwyr gwleidyddol.

Y ffaith amdani wrth gwrs yw mai'r Democratiaid (glas) wnaeth ennill yr Etholiad Arlywyddol. Pa bynnag ffordd yr edrychwch chi ar y dulliau cyfrif, nhw enillodd! Fe gollodd Donald Trump, a doedd hynny ddim i fod i ddigwydd iddo fo! Mi wylltiodd yn gandryll...a phwdu! Wnaeth o ddim llongyfarch Biden a gwrthododd fynd i Seremoni Urddo'r Arlywydd newydd. Heb os, fe wnaeth Trump annog ei ddilynwyr – ac nid eithafwyr asgell dde yn unig mohonynt chwaith – i wrthdystio'n filain a gwrthod y canlyniad. Dyna oedd y rheswm pennaf am yr 'ymosodiad' ar y Capitol yn Washington yn nechrau Ionawr.

Mi wyddom yn iawn fod yna raniadau dwfn drwy'r Unol Daleithiau yn dilyn y bleidlais. Yr hyn sy'n ddychryn i mi yw bod y pegynnu yma yn dal i'w weld mor glir. Er bod ganddo fwyafrif gwell yn y Tai Llywodraethu nag oedd gan Obama, bu'r modd y gweithredwyd wrth ddod â'r milwyr allan o Afghanistan, materion y Covid, arafwch gweithredu ar faterion ynglŷn â'r economi a sawl peth arall yn llyffethair i'r Biden teg (ond efallai gor-bwyllog) lwyddo fel y dymunem. Er i Trump golli mae llawer o'i gefnogwyr yn dal i sgyrnygu oddi ar y llwyfan o hyd. Prin, er hynny y gwelaf i ei enwebiad yn llwyddiannus, dros y Gweriniaethwyr, y tro nesaf. Rwy'n gobeithio'n wir mod i'n iawn! Mewn llawer rhan o'r wlad enfawr yma mae'r bwlch rhwng y dyn gwyn a'r du ei groen, a'r gagendor mawr rhwng y cyfoethog iawn a'r tlawd, yn dal yn peri gofid gwirioneddol.

Heb os mae ar ein cyd-ddyn yn yr Unol Daleithiau, o bob lliw a daliadau crefyddol a gwleidyddol angen ein gweddïau dwys.



### Achlysur Arbennig yn Aberdyfi


Mewn gwasanaeth ym Methel, Aberdyfi ar 31 Hydref, derbyniwyd Ceri Jones i swydd a gweinidogaeth Pregethwr Lleol. Llongyfarchwn Ceri ar gyflawni'r paratoad angenrheidiol a dymunwn yn dda iawn iddo. Diolchwn fod Duw yn galw merched a dynion ym mhob cenhedlaeth i lefaru ei air a chyhoeddi ei ogoniant.

Yn y llun y mae Bet Holmes, Ysgrifennydd Cyfarfod Pregethwyr Lleol Cylchdaith Cymru ynghyd â Ceri Jones a'r Parchg. Jennie Hurd, Arolygydd y Gylchdaith.



# TUDALEN Y PLANT






## AR DRAWS

1. Pwysicaf
4. Beth rydw i'n cael fy ngalw
5. Bydd yn dod
6. Daeth tri ohonynt i Fethlehem

## I LAWR

1. Dyma lle cafodd y bugeiliaid hyd i'r baban Iesu
2. Tri tri
3. Y Fendigaid Fair
4. Bachgen, wedi tyfu i fyny




## Gweddi

Ein Tad, helpa ni i gofio am enedigaeth Iesu Grist ac ymuno i ganu mawl iddo fel yr angylion.

Cofiwn am y bugeiliaid a'r doethion a ddaeth i weld y baban yn y preseb.

Cofiwn fod Iesu wedi dod er mwyn pawb a gad i ni rannu llawenydd a chariad â phawb. Amen.